Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

# Ymarfer Hap-samplu

# gan y

# Panel Craffu

# Adolygiad o Achosion Meddiant Cyffuriau Rheoledig (Canabis)

# (Mai 2018 – Gorffennaf 2018)

# Gwarediadau y tu allan i'r Llys

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel

Hydref 2018

## Cynnwys

1.0 Trosolwg.....2
2.0 Cefndir, Diben a Methodoleg.....2
2.1 Data Cefndir.....3
3.0 Cymeradwyaeth Cadeirydd y Panel.....4
4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y Panel.....5
5.0 Ystyried Achosion Meddiant Cyffuriau Rheoledig (Canabis) – drwgdybiedigion ifainc.....5
5.1 Sylwadau.....5
6.0 Ystyried Achosion Meddiant Cyffuriau Rheoledig (Canabis) – drwgdybiedigion sy'n oedolion.....7
6.1 Sylwadau.....8
7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn.....11
7.1 Arfer Da.....14
7.2 Meysydd sydd angen Gwelliant.....14
8.0 Ffocws y Panel yn y Dyfodol.....15
9.0 Materion eraill yn codi.....15

## 1.0 Trosolwg

Mewn cyfarfod o Banel Craffu Gwarediadau y tu allan i'r Llys Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar y 15fed Hydref 2018, adolygodd yr aelodau ddetholiad o achosion Meddiant Cyffuriau Rheoledig (Canabis) y deliwyd â hwy drwy roi Hysbysiad Cosb Benodol.

Ystyriodd y Panel gyfanswm o 20 achos, wyth yn ymwneud drwgdybiedigion ifainc a deuddeg yn ymwneud â drwgdybiedigion sy'n oedolion.

## 2.0 Cefndir, Diben a Methodoleg

Mae Aelodau'r Panel ar y cyd yn cytuno maes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Pythefnos cyn pob cyfarfod, maent yn derbyn ffeiliau achos perthnasol a ddewiswyd ar hap gan Gadeirydd y Panel. Yna mae'r Panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle y bo'n bosib, dod i benderfyniad ynghylch priodoldeb y gwarediadau. **Wrth benderfynu i ba gategori mae'r achos yn perthyn iddo, mae'r Panel yn ystyried y meini prawf canlynol:**


- Barn ac adborth gan y dioddefydd a'r troseddwr;
- Cydymffurfiaeth â pholisi'r heddlu;
- Sail resymegol dros y penderfyniad a'r canlyniad;
- Effaith debygol ar y gymuned ;
- Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd; a
- Dewisiadau arall posib a allai fod ar gael.


Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:


- Defnydd priodol ac yn gyson â'r polisi;
- Defnydd priodol gydag amheuon gan Aelodau'r Panel;
- Defnydd amhriodol neu ddiffyg cysondeb â'r polisi; a
- Panel yn methu â chyrraedd canlyniad.

## 2.1 Data Cefndir

Mae'r graffiau canlynol yn dangos y newid dros amser o ran defnydd Heddlu Dyfed-Powys o wahanol fathau o warediadau y tu allan i'r llys.






## 3.0 Cymeradwyaeth Cadeirydd y Panel

Gallaf i Mr. N.E. Powell J.P. (printiwch yr enw) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llwyr y farn a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer hap samplu ar y 15fed Hydref 2018.

Llofnod: ____________________

Dyddiad: 28/1/19.

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y Panel

O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys, cymerwyd y camau canlynol ers y cyfarfod diwethaf.

- Trafodwyd mewn perthynas ag un o'r achosion yn y cyfarfod, bod cyfeiriad y digwyddiad, sef adeilad gwag, yn denu llawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Pasiwyd y wybodaeth hon i Brif Arolygwyr Plismona Tiriogaethol yr ardal i sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys yn eu cynllun patrolio lleol a bod angen.

## 5.0 Ystyried Achosion Meddiant Cyffuriau Rheoledig (Canabis) – drwgdybiedigion ifainc

Deliwyd â chwech o'r achosion ieuenctid a ystyriwyd drwy gyfrwng Datrysiad Cymunedol Ieuenctid, un drwy Rybudd Ieuenctid ac un drwy Rybudd Amodol Ieuenctid. Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiadau'r Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 8 |
| Priodol gydag amheuon | 0 |
| Amhriodol | 0 |

### 5.1 Sylwadau

Nodir isod sylwadau Aelodau'r Panel ar gyfer pob achos.

**Achos 1**

Teimlai'r Aelodau bod y canlyniad Rhybudd Amodol Ieuenctid yn addas yn yr achos hwn. Roedd y troseddwr wedi ymddiheuro ac nid oedd ganddo euogfarnau blaenorol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 2**

Roedd yr Aelodau'n fodlon â'r rhesymeg yn y ffeil achos a theimlent, o ystyried amgylchiadau bregus yr unigolyn, bod rhybudd amodol yn ganlyniad priodol. Nodwyd hefyd bod yr unigolyn mewn cysylltiad â gwasanaethau cefnogi, a gobeithiwyd y byddai hynny'n eu helpu yn y dyfodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 3**

Teimlai'r aelodau bod y canlyniad yn yr achos hwn, sef Datrysiad Cymunedol Ieuenctid, yn briodol. Ni fynegodd yr Aelodau unrhyw bryderon ynghylch y canlyniad oherwydd nid oedd gan yr unigolyn euogfarnau blaenorol ac roedd yn fregus oherwydd amgylchiadau teuluol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 4**

Roedd yr aelodau'n fodlon â'r rhesymeg yn yr achos a theimlent fod Datrysiad Cymunedol Ieuenctid yn ganlyniad priodol, oedd yn cydymffurfio â'r meini prawf a pholisi.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 5**

Teimlai'r Panel bod yr achos hwn wedi ei waredu'n briodol. Roedd yr unigolyn yn fregus oherwydd pryderon Iechyd Meddwl, ac roedd bellach mewn cysylltiad â gwasanaethau cefnogi.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 6**

Daeth Aelodau'r Panel i'r casgliad bod yr achos hwn wedi ei waredu'n briodol. Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol Ieuenctid i'r troseddwr; nid oedd ganddo euogfarnau blaenorol ac roedd yn edifar.

**Asesiad y Panel: Priodol**

### Achos 7

Nid oedd gan y Panel unrhyw bryderon ynghylch canlyniad y gwarediad hwn gan ei fod yn cydymffurfio â pholisi ac nid oedd gan yr unigolyn euogfarnau blaenorol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

### Achos 8

Teimlai'r Panel fod Datrysiad Cymunedol yn ganlyniad priodol yn yr achos hwn. Nid oedd gan yr unigolyn unrhyw hanes blaenorol ac oherwydd mai ychydig bach o ganabis a ddarganfuwyd, teimlwyd bod y canlyniad yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

## 6.0 Ystyried Achosion Meddiant Cyffuriau Rheoledig (Canabis) – drwgdybiedigion sy'n oedolion

Adolygodd Aelodau'r Panel 12 achos oedolyn lle y deliwyd â'r unigolion drwy Hysbysiad Cosb Benodol am Feddiant Cyffuriau Rheoledig (Canabis) Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiadau'r Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 3 |
| Priodol gydag amheuon | 5 |
| Amhriodol | 4 |
| Panel wedi methu â dod i ganlyniad | 0 |

### 6.1 Sylwadau

Nodir isod sylwadau Aelodau'r Panel ar gyfer pob achos.

**Achos 9**

Nododd Aelodau'r Panel, yn unol â chanllawiau Hysbysiad Cosb am Anhrefn (PND), bod rhoi PND i'r unigolyn yn amhriodol oherwydd bod ganddo euogfarnau blaenorol. Nododd Aelodau'r Panel fodd bynnag mai ychydig bach o ganabis a ddarganfuwyd ac felly roeddynt yn deall rhesymeg y penderfynydd.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 10**

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch canlyniad yr achos hwn oherwydd bod yr unigolyn wedi derbyn rhybudd blaenorol. Fodd bynnag, yn yr un modd ag achos 9, nododd yr aelodau, er nad oedd rhoi PND yn cydymffurfio â pholisi, oherwydd mai ychydig bach o ganabis a ddarganfuwyd ni ellir cyfiawnhau trin yr achos yn fwy difrifol.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 11**

Ni ddylid rhoi PND i unigolyn os ydynt wedi cael cyhuddiad, rhybudd, cerydd, rhybudd terfynol neu rybudd amodol blaenorol am gynhyrchu, cyflenwi neu fod â chyffur yn ei meddiant gyda'r bwriad o gyflenwi. Nid yw'r polisi yn nodi fframwaith amser o ran diystyru euogfarnau blaenorol. Teimlai'r Panel, er bod y canlyniad yn yr achos hwn yn briodol, am fod euogfarn flaenorol yr unigolyn wedi digwydd 21 mlynedd yn ôl, roedd ganddynt amheuon am nad oedd yn cydymffurfio â'r polisi PND.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

| **Cam 1** |
|---|
| Adolygu'r Polisi PND gan ystyried ychwanegu fframwaith amser neu ganiatáu Swyddogion i ddefnyddio'u disgresiwn ynghylch priodoldeb rhoi PND i unigolion sydd ag euogfarnau blaenorol. |

## Achos 12

Yn unol â'r polisi, ni ddylid fod wedi rhoi PND i'r unigolyn hwn oherwydd ei fod wedi derbyn rhybudd blaenorol. Fodd bynnag, teimlwyd bod angen defnyddio disgresiwn oherwydd bod y rhybudd blaenorol wedi'i roi pan oedd yr unigolyn dan 18 oed, ac mae ychydig bach o ganabis oedd ganddo yn ei feddiant.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

## Achos 13

Roedd y Panel yn fodlon â chanlyniad y gwarediad hwn am fod yr unigolyn yn ifanc iawn ac mai ychydig bach o ganabis oedd ganddo yn ei feddiant. Yn unol ag achosion blaenorol, dyfarnodd y Panel ganlyniad priodol gydag amheuon yn yr achos hwn oherwydd bod rhoi PND i'r unigolyn yn groes i'r polisi, oherwydd ei fod wedi cael rhybudd blaenorol am fod â chyffuriau yn ei feddiant.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

## Achos 14

Penderfynodd Aelodau'r Panel bod yr achos hwn wedi cael ei waredu'n briodol gan nad oedd gan y drwgdybiedig unrhyw euogfarnau blaenorol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

## Achos 15

Roedd yr Aelodau'n fodlon â chanlyniad yr achos hwn; cyfaddefodd y troseddwr yn llawn i'r drosedd ac nid oedd ganddo euogfarnau blaenorol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 16**

Teimlai'r Aelodau bod y gwarediad yn yr achos hwn yn amhriodol. Roedd gan yr unigolyn euogfarnau blaenorol, roedd ganddo gyflenwad sylweddol o ganabis yn ei feddiant ac roedd yn disgwyl canlyniad prawf gwaed mewn perthynas ag amheuaeth o yrru dan ddylanwad cyffuriau. Teimlai'r Aelodau y dylai'r achos hwn fod wedi cael ei drin yn fwy difrifol. Nodwyd hefyd bod yr amheuaeth fod yr unigolyn wedi gyrru dan ddylanwad yn cael ei drin fel achos ar wahân. Teimlwyd y dylai'r ddau achos fod wedi cael eu trin gyda'i gilydd a'u hanfon i'r llys.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 17**

Daeth y Panel i'r casgliad bod yr achos hwn wedi cael ei waredu'n amhriodol. Roedd yr unigolyn wedi derbyn PND blaenorol 10 niwrnod yn unig yn gynharach. Stopiwyd a chwiliwyd cerbyd yr unigolyn yn y ddau ddigwyddiad a darganfuwyd bod ganddo ganabis yn ei feddiant ac roedd felly yn destun ymchwiliad am yrru dan ddylanwad. Fodd bynnag nododd yr Aelodau oherwydd agosrwydd y ddau achos ei bod yn bosib nad oedd y gwaith o gofnodi'r digwyddiad cyntaf wedi ei gwblhau ac nad oedd felly yn weladwy i'r swyddogion oedd yn delio â'r ail drosedd.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

| **Cam 2** |
|---|
| Achos 17: Adolygu amseriad a chofnodi achosion 17 ac 18 i weld a oedd achos 18 wedi ei gwblhau a'i gofnodi o fewn y bwlch 10 niwrnod. |

**Achos 18**

Canfuwyd mai'r un person oedd yr unigolyn yn yr achos hwn ac achos 17, gyda'r drosedd hon yn digwydd 10 niwrnod yn unig cyn achos 17. Teimlai'r Aelodau bod yr achos hwn wedi ei waredu'n briodol gan nad oedd gan yr unigolyn euogfarnau blaenorol ar y pryd.

**Asesiad Panel: Priodol**

**Achos 19**

Daeth yr Aelodau i'r penderfyniad bod yr achos hwn wedi ei waredu'n amhriodol. Teimlwyd y dylai'r unigolyn fod wedi cael ei gyhuddo o fod â chanabis yn ei feddiant oherwydd bod ganddo gyflenwad mor fawr o'r cyffur.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**


**Achos 20**

Penderfynwyd bod yr achos hwn wedi cael ei waredu'n amhriodol oherwydd bod gan yr unigolyn 76 o euogfarnau blaenorol. Roedd rhai o'r rheiny yn gysylltiedig â meddiant cyffuriau, gyda'r drosedd olaf 5 mlynedd yn ôl.


**Asesiad y Panel: Amhriodol**

## 7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn

Mae'r graff isod yn dangos asesiadau'r Panel o'r achosion a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf.




Ers Ebrill 2013 mae'r Panel wedi ystyried amrywiaeth o waredladau, fel y gwelir yn y graff isod.





O'r 253 o achosion a adolygwyd rhwng Ebrill 2013 a Hydref 2018, cafodd 56% eu hasesu'n briodol, 24% yn amhriodol, 18% yn briodol gydag amheuon a methodd y Panel â dod i ganlyniad mewn 2% o'r achosion.


Ar y cyfan roedd cynnydd yn nifer yr achosion a ystyriwyd gan y Panel yn warediadau priodol. Gellir gweld y newid hwn dros amser yn y graff isod.




Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad fesul math o drosedd fel canran o'r achosion a ystyriwyd rhwng Tachwedd 2013 a Hydref 2018.



ae'r graff canlynol yn dangos y nifer gwirioneddol o achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel yn eu cyfarfodydd rhwng Tachwedd 2013 a Hydref 2018.




## 7.1 Arfer Da

Nodwyd yr ymarfer da canlynol o ganlyniad i waith y Panel yn ystod y chwarter hwn:

- Ymhob un o'r wyth achos Meddiant Canabis Ieuenctid a hap-samlpwyd, roedd y Panel yn fodlon â'r rhesymeg a nodwyd yn y ffeiliau achos, a arweiniodd at ganlyniad gwaredu priodol.

## 7.2 Meysydd sydd angen Gwelliant

Nodwyd un maes penodol lle'r oedd angen gwelliant o ganlyniad i waith y Panel yn ystod y chwarter hwn:

- Nodwyd bod angen adolygu'r polisi PND i alluogi swyddogion ddefnyddio'u disgresiwn a dylai ddatgan yn glir a oes fframwaith amser o ran pa mor hir y caiff euogfarnau blaenorol eu cydnabod.

## 8.0 Ffocws y Panel yn y Dyfodol

Cafwyd trafodaeth ynghylch pa faes y dylai'r Panel ei ystyried nesaf. Ystyriwyd troseddau rhyw a throseddau â chyllyll fel dewisiadau posib. Cytunodd y Panel i ystyried gwarediadau y tu allan i'r llys mewn perthynas â throseddau rhyw. Cytunwyd y byddai'n gyfle da i edrych ar ddatblygiadau ers eu hadolygiad o achosion troseddau rhyw yn ôl ym mis Mawrth 2016. Cytunwyd hefyd y dylid ymchwilio i ystadegau a data'n ymwneud â throseddau cyllyll yn ardal Dyfed-Powys a'u cyflwyno i'r cyfarfod nesaf er mwyn penderfynu a fyddai hwn yn bwnc addas i'w adolygu mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 9.0 Materion eraill yn codi

Yn y cyfarfod diwethaf ar yr 16eg Gorffennaf, methodd yr aelodau â chyrraedd canlyniad mewn perthynas ag achos 14. Roedd trosedd arall yn gysylltiedig ag achos 14, lle'r oedd yr unigolyn wedi cael ei ddal â sylwedd yn ei feddiant, a disgwylir canlyniadau o'r labordy i adnabod y sylwedd. Gofynnodd yr aelodau i'r achos gael ei ddwyn yn ôl pan fyddai'r canlyniadau ar gael. Nodwyd bod y canlyniadau wedi dod yn ôl yn glir. O ganlyniad i'r datblygiad hwn, teimlai'r aelodau bod yr achos wedi cael ei waredu'n briodol.